

**Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru
Lleoliad – Telegynhadledd
23 Ebrill 2020**

Yn bresennol:

Yr Arglwydd Burns (Cadeirydd)
Lynn Sloman
Elaine Seagriff
Stephen Gifford
James Davies
Peter McDonald (Pennaeth yr Ysgrifenyddiaeth)
Matt Jones (Ysgrifenyddiaeth – Pennaeth Polisi)
James Dowling (Ysgrifenyddiaeth)
Mari Williams (Ysgrifenyddiaeth)
Gareth Potter (Ysgrifenyddiaeth – Rheolwr Prosiect)
Will Wootten (Rhan o'r cyfarfod. Tîm Technegol)
Richard Jones (Rhan o'r cyfarfod. Tîm Technegol)

Ymddiheuriadau:

Peter Jones
Jen Heal
Beverly Owen (Anawsterau technegol)

Cyflwyniad a Rhaglen Gyffredinol

Cyflwynodd yr Arglwydd Burns y cyfarfod. Arweiniodd drafodaeth am yr amserlen ar gyfer rhaglen y Comisiwn, gan gynnwys yr adroddiad interim a'r adroddiad terfynol. Aeth y Comisiynwyr ati i drafod yr effaith yr oedd COVID-19 yn debygol o'i chael ar waith y Comisiwn ac ar ei argymhellion terfynol. Er bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n drwm ar COVID-19 ar hyn o bryd, roedd gwaith y Comisiwn yn parhau'n flaenoriaeth, ac os oedd modd o gwbl, ni ddylid llusgo traed.

Ymgysylltu

Daeth dros 2,500 o gyfraniadau i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein 'Dweud eich Dweud'. Mae'r arolygon ar-lein gyda chyflogwyr allweddol yn parhau. Gohiriwyd mathau eraill o ymgysylltu wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid.

Yr Adroddiad Interim a'r Adroddiad Terfynol

Rhoddodd y Comisiynwyr adborth am y gwaith a oedd wedi'i gwblhau hyd yma ar yr adroddiad interim. Byddai gwaith yn dechrau ar yr adroddiad terfynol ar yr un pryd.

Y Diweddaraf am y Rheilffyrdd

Cyflwynodd Will Wootten bapur ac atebodd gwestiynau am yr opsiynau ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau rheilffordd ar Brif Linell y De. Roedd y drafodaeth yn cynnwys lefel y gwasanaethau ychwanegol y gellid eu darparu, y seilwaith y byddai ei angen i gyrraedd y lefel ychwanegol o wasanaethau, a thrafodaeth gychwynnol am ddichonoldeb gorsafoedd ychwanegol ar hyd Prif Linell Reilffordd y De.

Gorsafoedd Trafnidiaeth a Safonau Gwasanaeth

Cyflwynodd Richard Jones bapur a oedd yn amlinellu sut y gellid cysylltu dulliau teithio mewn gorsafoedd allweddol. Roedd y papur yn awgrymu gorsafoedd rheilffordd lle y gellid gwella cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol er mwyn annog pobl i droi at ddulliau teithio heblaw ceir.

Canlyniadau Cynnar Profion Modelu

Roedd adroddiad yn y papur am rai o'r profion cynnar ar y Model Trafnidiaeth ar gyfer y De-ddwyrain. Bu'r Comisiwn yn ystyried i ba raddau y dylid defnyddio modelu i lywio blaenoriaethau ac argymhellion y Comisiwn.

Y Cyfarfod Nesaf

Bydd y Comisiwn yn cyfarfod eto ym mis Mai – y dyddiad i'w gadarnhau.